



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Dogfen Ymgynghori

Polisi Gorfodi ac Erlyn – sy'n dangos bod cydymffurfio a gorfodi'n digwydd yn unol â'r egwyddorion rheoleiddio gwell.

Dyddiad cyhoeddi: 17 Ionawr 2013
Ymatebion erbyn: 28 Chwefror 2013



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar y polisi gorfodi a'r cyfarwyddyd cysylltiedig a gynigir ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru, yn dilyn penderfyniad i drosglwyddo pwerau sancsiynau sifil i Cyfoeth Naturiol Cymru.

Sut mae ymateb

Cyflwynwch eich sylwadau gan ddefnyddio'r holiadur yng nghefn y ddogfen hon, erbyn 28 Chwefror 2013, gan ddefnyddio unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:

E-bost

LivingWales@Wales.GSI.Gov.UK

Post

Cyfoeth Naturiol Cymru

Swyddfa Rhaglen Cymru Fyw

Llywodraeth Cymru

Sarn Mynach

Cyffordd Llandudno

Conwy

LL31 9RZ

Diogelu data

Bydd yr wybodaeth y byddwch yn ei hanfon atom ni'n cael ei chyhoeddi mewn crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Fel rheol, cyhoeddir enwau a chyfeiriadau (neu ran o gyfeiriad) eu hawduron gyda'r ymatebion. Os nad ydych yn dymuno cael eich enwi fel awdur eich ymateb, dylech ddatgan hynny'n glir wrth ysgrifennu neu wrth anfon e-bost atom.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ceisio eich barn ar ei bolisi gorfodi arfaethedig a'r cyfarwyddyd cysylltiedig ynghylch defnyddio sancsiynau sifil.

Ar 12fed Awst 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ail ymgynghoriad ynghylch y trefniadau arfaethedig ar gyfer sefydlu corff amgylcheddol unigol newydd ar gyfer Cymru. Mae'r corff hwn wedi'i sefydlu yn awr a'i enw yw Cyfoeth Naturiol Cymru.

Yn ystod yr ymgynghoriad cynharach hwn, gofynnwyd am farn ar agweddau penodol ar weithredu'r corff newydd, gan gynnwys y dyletswyddau cyffredinol, a'r trefniadau cyfreithiol a gwaith arfaethedig. Gofynnodd Llywodraeth Cymru yn benodol a ddylai Cyfoeth Naturiol Cymru gael pwerau i ddefnyddio sancsiynau sifil. O blith y rhai a anfonodd ymateb i'r cwestiwn hwn, mynegodd 98% gefnogaeth gref i'r pwerau hyn.

Fel rheoleiddiwr amgylcheddol sydd â phwerau i ddefnyddio sancsiynau sifil, mae Cyfoeth Naturiol Cymru eisiau gwneud yn siŵr ein bod ni'n gallu dangos y bydd gwaith cydymffurfio a gorfodi'n cael ei wneud yn unol â'r egwyddorion rheoleiddio gwell. Felly rydym yn cyhoeddi ein polisi gorfodi a'r cyfarwyddyd, i ddangos ein bod yn gweithredu mewn ffordd gymesur, tryloyw, cyson, atebol ac wedi'i thargedu wrth ymgymryd â gwaith gorfodi.

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r dull o weithredu yr hoffem ei fabwysiadu mewn perthynas â gorfodi, ac rydym yn gobeithio y byddwch yn rhoi gwybod i ni beth yw eich barn.

Mae ein Polisi Gorfodi ac Erlyn yn cynnwys yr holl droseddau y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn awdurdod gorfodi cyfrifol ar eu cyfer. Mae'r rhain yn cynnwys yr holl droseddau a oedd yn gyfrifoldeb yr awdurdodau gorfodi blaenorol, sef Cyngor Cefn Gwlad Cymru, y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru.

Mae'r ddogfen sy'n cyd-fynd, Cyfarwyddyd ar Orfodi a Sancsiynau, yn egluro'n fanylach sut byddwn yn gweithredu'r polisi hwn a sut byddwn yn gwneud penderfyniadau am ein hymatebion gorfodi i droseddau.

Bydd trydedd dogfen, yr Opsiynau Ymateb i Droseddau, yn rhestru pob un o'r troseddau a'r ymatebion sydd ar gael i ni ar gyfer y troseddau hynny. Gan mai rhestr o'r deddfwriaethau a'r ymatebion sydd ar gael i ni'n gyfreithiol yw hon, nid yw wedi'i chynnwys yn yr ymgynghoriad hwn, ond bydd yn cael ei chyhoeddi yn ein gwefan. Fodd bynnag, mae esiampol o'r wybodaeth a fydd yn cael ei chynnwys yn y ddogfen hon wedi'i chynnwys fel rhan o'r ymgynghoriad hwn yn Atodiad 4 i'r cyfarwyddyd.

Mae'r polisi a'r cyfarwyddyd yn cynnwys troseddau sydd ag opsiynau i ddefnyddio sancsiynau sifil, yn ogystal â'r troseddau hynny nad oes sancsiynau sifil ar gael ar eu cyfer.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'n dull arfaethedig o weithredu mewn perthynas â'r polisi a'r cyfarwyddyd. Nid ydym yn ailymgyngori ynghylch a

ddylai Cyfoeth Naturiol Cymru gael pwerau sancsiynau sifil ai peidio, oherwydd cafodd hyn sylw yn yr ymgynghoriad cynharach ym mis Awst 2012.

Beth ydym yn ei gynnig a pham?

Mae trosglwyddo pwerau sancsiynau sifil i Cyfoeth Naturiol Cymru yn golygu bod rhaid i ni ymgymryd â gwaith cydymffurfio a gorfodi yn unol â'r egwyddorion rheoleiddio gwell.

Mae'r egwyddorion hyn yn golygu bod rhaid i'n gwaith cydymffurfio a gorfodi ni fod fel a ganlyn:

- Tryloyw – gyda rheolau a phrosesau clir;
- Atebol – rydym yn egluro ein perfformiad;
- Cyson – defnyddir yr un dull o weithredu oddi mewn i sectorau ac ar eu traws;
- Cymesur – mae ein camau gweithredu'n cael eu llywodraethu gan y risg amgylcheddol;
- Wedi'i dargedu – rydym yn canolbwyntio ar y canlyniadau amgylcheddol pwysicaf.

Cyfeirir at y rhain hefyd fel egwyddorion Hampton a daethant i'r amlwg yn adolygiad Hampton o brosesau rheoleiddiol gan Lywodraeth y DU yn 2005. Hefyd cyflwynwyd Cod Cydymffurfio statudol i Reoleiddwyr, i sicrhau ymhellach bod y rheoliadau'n cael eu gweithredu yn unol â'r egwyddorion hyn.

Mae rheoleiddio gwell yn anelu at sicrhau'r cydbwysedd priodol - ymateb cymesur, seiliedig ar risg a fydd yn sbarduno gwelliannau amgylcheddol ac yn gwobrwyo perfformiad da, ond yn dal i gynnig sicrwydd yn y pen draw y bydd camau gweithredu llym yn cael eu rhoi ar waith yn erbyn y rhai a fydd yn methu cyrraedd safonau derbyniol.

Byddwn yn canolbwyntio ar flaenoriaethau amgylcheddol, gan weithio gyda busnesau ac unigolion y mae eu gweithgareddau'n peri risg amgylcheddol uwch neu sy'n cael anhawster i gydymffurfio â gofynion deddfwriaethol. Ein nod ni yw lleihau ein hymyriadau â chwmnïau ac unigolion sy'n cydymffurfio mor gaeth â phosib â (neu'n rhagori ar) y gofynion cyfreithiol.

Dilynwyd adolygiad Hampton gan Adolygiad Macrory yn 2008, i edrych ar beth gellid ei wneud i wella cydymffurfiaeth ymhlith busnesau'r DU. Canfu bod llawer o weithdrefnau sancsiynau rheoleiddiol yn dibynnu gormod ar erlyn cyfreithiol, heb ddigon o hyblygrwydd. Cyflwynwyd sancsiynau sifil yng Nghymru a Lloegr o dan y Ddeddf Gorfodi a Sancsiynau (2008) reoleiddiol, er mwyn gweithredu rhai o'r argymhellion yng ngwaith Macrory.

Er nad yw cod cydymffurfio Hampton ar gyfer Egwyddorion a Rheoleiddwyr yn berthnasol i Gymru, roedd Llywodraeth Cymru yn awyddus i sicrhau bod dull cyson o weithredu'n cael ei fabwysiadu mewn perthynas â rheoleiddio ledled y DU. Ym mis Medi 2009, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Datganiad Polisi ar Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio yng Nghymru, gan ddatgan ymrwymiad

Cymru i weithio gyda phartneriaid yn y DU i sicrhau bod y cysondeb hwn yn cael ei gyflawni.

Beth yw sancsiynau sifil?

Cafodd Asiantaeth yr Amgylchedd bwerau i ddefnyddio sancsiynau sifil ym mis Gorffennaf 2010 ar gyfer troseddau o dan rai deddfwriaethau penodol yng Nghymru a Lloegr. Bydd y pwerau hyn yn trosglwyddo i Cyfoeth Naturiol Cymru.

Maent ar gael ar gyfer troseddau o dan y rheoliadau canlynol:

- Rheoliadau Rheoli Llygredd (Storio Olew) (Lloegr) 2001
- Deddf yr Amgylchedd 1995
- Rheoliadau Gwarchodaeth Amgylcheddol (Gwaredu Biffenylau Polycloriniedig a Sylweddau Peryglus eraill) (Cymru a Lloegr) 2000
- Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru a Lloegr) 2005
- Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005
- Deddf Draenio Tir 1991
- Rheoliadau Atal Llygredd Nitrad (Lloegr yn unig) 2008
- Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchydd (Pecynnu Gwastraff) 2007
- Deddf Eogiaid 1986
- Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975
- Rheoliadau Slwtsh (defnydd amaethyddol) 1989
- Rheoliadau Cludo Gwastraff ar Longau Trawsffiniol 2007
- Deddf Diwydiant Dŵr 1991
- Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 2003
- Deddf Adnoddau Dŵr 1991
- Cynllun masnachu allyriadau'r UE
- Ymrwymiad i leihau carbon

Gellir ystyried ehangu'r pwerau hynny ymhellach i'r busnes ehangach yn y dyfodol, os bydd galw am hynny a chefnogaeth iddo.

Nid yw sancsiynau sifil yn cymryd lle unrhyw rai o'n hadnoddau gorfodi eraill. Maent yn darparu ystod mwy hyblyg fel bod y cam gweithredu mwyaf priodol yn gallu cael ei ddewis ar gyfer gorfodi pan fydd trosedd yn digwydd. Maent yn canolbwyntio ar fuddsoddi mewn glanhau amgylcheddol yn hytrach na thalu dirwyon.

Mae'n rhaid i ni allu dangos ein bod yn gweithio yn unol ag egwyddorion rheoleiddio gwell er mwyn cynnal ein defnydd o bwerau sancsiynau sifil. Mae'n bur debyg y byddwn yn cael ein harchwilio yn erbyn gofynion yr egwyddorion hyn yn ystod ein blwyddyn weithredu gyntaf. Byddai llwyddo yn yr archwiliad hwn yn golygu bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael dal gafael ar ei ddefnydd o sancsiynau sifil ac yn gallu ystyried eu defnyddio'n ehangach.

Sut mae hyn yn wahanol i'r hyn sydd gennym ar hyn o bryd?

Mae gan y 3 sefydliad y mae eu swyddogaethau'n trosglwyddo i Cyfoeth Naturiol Cymru ar 1^{af} Ebrill 2013 dri pholisi gorfodi ar wahân ar hyn o bryd. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru yn gweithio yn unol â pholisi gorfodi teulu DEFRA, fel rhan o Gomisiwn Coedwigaeth PF (Polisi Gorfodi'r CC). Mae gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru bolisi unigol ar wahân (Polisi Gorfodi CCGC). Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru yn gweithio yn unol â dogfennau polisi a chyfarwyddyd Asiantaeth yr Amgylchedd (Cymru a Lloegr) (Polisi Gorfodi AA).

O blith y 3 sefydliad yma, dim ond Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n gallu defnyddio sancsiynau sifil ar hyn o bryd, ac mae wedi cael ei harchwilio yn erbyn gofynion yr Egwyddorion Rheoleiddio Gwell. Gan fod y pwerau hyn yn mynd i fod yn trosglwyddo i Cyfoeth Naturiol Cymru, rydym yn cynnig bod ein polisi gorfodi'n cael ei seilio ar bolisi cyfredol Asiantaeth yr Amgylchedd, sydd eisoes wedi bod yn rhan o'r broses archwilio.

Eich barn

Rydym yn ceisio eich barn ar ein dull arfaethedig o weithredu mewn perthynas â gorfodi, fel y diffinnir yn ein Polisi Gorfodi ac Erlyn, a'i egluro ymhellach yn y ddogfen gyfarwyddyd sy'n cyd-fynd.

Mae croeso i chi wneud unrhyw sylwadau ar y dogfennau hyn fel y dymunwch, a byddem yn croesawu eich barn ar y cwestiynau canlynol yn benodol:

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig o weithredu mewn perthynas â defnyddio sancsiynau gorfodi ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru?

Ydw

Yn bennaf

Nac ydw

Cwestiwn 2: Ydi'r dogfennau hyn yn egluro'n glir yr hyn rydym yn ei ystyried wrth wneud penderfyniad am ymateb gorfodi?

Ydynt

Yn bennaf

Nac ydynt

Cwestiwn 3: Rydym wedi holi nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig sydd heb gael sylw penodol, defnyddiwch y gofod hwn i adrodd yn ôl yn eu cylch:

Rhowch eich sylwadau yma:

Eich enw:

Sefydliad (os yn berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Efallai y caiff ymatebion i ymgynghoriadau eu cyhoeddi – ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch yma:

Mae CNC wedi ymrwmo i hybu a sicrhau cydraddoldeb a thegwch i'n cwsmeriaid i gyd felly byddai o ddefnydd pe baech yn gallu ateb ambell gwestiwn i'n helpu ni i fonitro a deall pwy sydd wedi ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio i'n helpu ni i fonitro i bwy rydym yn cyflwyno gwasanaethau, ac i'n helpu i wella. Mae'n gyfrinachol ac ni fydd yn cael ei phriodoli yn ôl i chi na'i chyhoeddi gyda'ch ymateb. Mae rhoi gwybodaeth amdanoch eich hun yn gwbl wirfoddol a does dim rhaid i chi ddarparu'r wybodaeth hon o gwbl.

Diolch i chi am eich cyfraniad.

Ai gwryw neu fenyw ydych chi? <i>Ticiwch un blwch</i>	Gwryw			Benyw			
Faint yw eich oed chi? <i>Ticiwch un blwch</i>	Dan 18	18 - 29	30 - 44	45 - 59	60 - 75	Dros 75	
Oes gennych chi salwch neu anabledd tymor hir? <i>Ticiwch un blwch</i>	Oes			Nac oes			
A ydych chi'n ystyried eich hun yn un o'r canlynol: <i>Ticiwch un blwch</i>	Heterorywiol	Hoyw neu lesbiaidd		Deurywiol	Arall	Mae'n well gen i beidio â dweud	
Beth yw eich crefydd? <i>Ticiwch un blwch</i>	Cristion	Mwslim	Bwdhydd	Hindŵ	Iddewig	Sikh	Arall
Sut byddech chi'n disgrifio eich tarddiad ethnig? <i>Ticiwch un blwch yn unig</i>							
Gwyn - Prydeinig							
Gwyn - Gwyddelig							
Gwyn - Unrhyw gefndir arall							
Cymysg - Gwyn a Du Affricanaidd							
Cymysg - Gwyn a Du Caribiaidd							
Cymysg - Gwyn a Du Asiaidd							
Cymysg - Unrhyw gefndir cymysg arall							
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Indiaidd							
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Pacistanaidd							
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Bangladeshaidd							
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Unrhyw gefndir arall							
Du neu Ddu Prydeinig - Affricanaidd							
Du neu Ddu Prydeinig - Caribiaidd							
Du neu Ddu Prydeinig - Unrhyw gefndir arall							
Grŵp Ethnig arall - Tsieineaidd							
Grŵp Ethnig arall - Sipsi neu Deithiwr							
Unrhyw Grŵp Ethnig arall <i>(rhowch fanylion)</i>							